**Rhif: WG 34155**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018

Ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Awst 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft a'u heffaith reoleiddiol ddisgwyliedig. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw hanner nos ar 17 Awst 2018.<br><br>Gellir cyflwyno ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.<br><br>Neu, mae ffurflen ymateb wedi'i hamgáu yn Atodiad A y gellir ei dychwelyd drwy e-bost i:<br><br>PolisiTybaco@llyw.cymru<br><br>Neu drwy'r post at:<br><br>Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo)<br>Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>4ydd Llawr, Y Dwyrain<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras ac ieithoedd eraill.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael at wefan Llywodraeth Cymru yn:<br><br>https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo)<br>Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>4ydd Llawr, Y Dwyrain<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Gall comisiynu lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gwaith hwn gael ei wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018

Ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft

**Cynnwys**

**Rhagair y Gweinidog**


| | **Tudalen** |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | **7** |
| **2. Ble rydym ni'n awr** | **8** |
| **3. Beth yw'r prif newidiadau?** | **10** |
| **4. Beth fydd yn aros yr un fath?** | **16** |
| **5. Cwestiynau'r ymgynghoriad** | **18** |
| **6. Y camau nesaf** | **22** |
| **Atodiad A – Ffurflen ymateb** | **23** |

## Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser lansio'r ddogfen ymgynghori hon sy'n cynnwys y manylion am Reoliadau drafft Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gweithredu Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a fydd yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 sy'n gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd. Byddant hefyd yn disodli gwelliannau wedi hynny i Reoliadau 2007 sy'n ymwneud ag ysmygu mewn cerbydau preifat.

Gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, bydd y Rheoliadau hefyd yn ymestyn y gwaharddiad ar ysmygu i fannau awyr agored ar dir ysbytai, tir ysgolion, a meysydd chwarae awdurdodau lleol. Mae gwaharddiadau gwirfoddol ar ysmygu mewn llawer o'r mannau hyn eisoes ond er gwaethaf pob ymdrech bu'n anodd i orfodi'r gwaharddiad.

Mae'r ymgynghoriad yn ystyried dirymu esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafell lle gall cleifion a phreswylwyr unedau iechyd meddwl ysmygu ac yn ei le gyflwyno esemptiad cyfyngedig o ran amser a fyddai'n dod i ben 18 mis ar ôl i'r rheoliadau newydd ddod i rym. Mae mynychder ysmygu ymhlith pobl â salwch meddwl yn sylweddol uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol, ac mae hynny'n achos pryder. Byddai cael gwared ar yr esemptiad yn golygu bod y gyfraith wedyn yn debyg i'r un ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ysbytai cyffredinol a bydd yn ymdrech i roi sylw i anghydraddoldebau iechyd ymhlith pobl â chyflyrau iechyd meddwl.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried cael gwared ar esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely lle mae ysmygu'n cael ei ganiatáu mewn gwestai, tai llety, hostelau, tafarnau a chlybiau aelodau ac yn ei le gyflwyno esemptiad cyfyngedig o ran amser a fyddai'n dod i ben 12 mis ar ôl i'r rheoliadau newydd ddod i rym. Mae'r gwaharddiad ar ysmygu wedi ymwreiddio i'r fath raddau yng Nghymru fel nad yw'r esemptiad cyfredol yn cael ei ddefnyddio'n aml. Byddai cael gwared at y dynodiad hwn yn ymestyn gwarchodaeth yn y gweithle rhag niwed i iechyd a achosir gan fwg ail-law i bob gweithiwr mewn mangreoedd o'r fath, ac yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru yn y pen draw i gael cymdeithas ddi-fwg. Mae lleihau effeithiau ysmygu ar iechyd yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth polisi gan Lywodraeth Cymru. Mae ysmygu'n parhau i fod yn un o brif achosion anghydraddoldeb mewn iechyd yng Nghymru gyda chyfraddau ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig dros ddwywaith yn fwy nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae ysmygu'n achosi tua 5,450 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru, ac mae'n costio tua £302 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu'r mesurau a geir yn ein Cynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017-2020 i wella iechyd a llesiant yng Nghymru, ac i roi mwy o bwyslais ar atal yn unol â'n strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb.

Edrychaf ymlaen at gael ymatebion gan gynifer o bobl â phosibl.

**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pennod 1: Cyflwyniad**

1. Diben yr ymgynghoriad hwn yw clywed barn ar Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft ("Rheoliadau 2018") a'u heffaith reoleiddiol ddisgwyliedig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Reoleiddiol (RIA) drafft a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon.

2. Bwriedir i Reoliadau 2018 weithredu Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[1] ("Deddf 2017") o ran ysmygu. Bydd Rheoliadau 2018 hefyd yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007[2] ("Rheoliadau 2007") a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2007 ac a ddiwygiwyd yn 2015[3] o ran ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo pobl o dan 18 oed, ac yn 2016[4] o ran ysmygu mewn carchardai.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon.

[1] Pennod 1 o Ran 3 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/part/3/chapter/1/enacted
[2] Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/787/contents/made/welsh
[3] Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1363/contents/made/welsh
[4] Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1363/contents/made/welsh

**Pennod 2: Lle'r ydym ni'n awr**

1. Mae Pennod 1 o Ddeddf 2017 yn ailddatgan darpariaethau penodol sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn Adran 1 o Ddeddf Iechyd 2006[5], i'r graddau eu bod yn ymwneud â Chymru. Roedd Deddf Iechyd 2006 yn gwneud gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn ddi-fwg ac roedd yn rhoi pwerau i awdurdodau cyhoeddus i wneud esemptiadau i'r gofynion di-fwg ac i ddarparu ar gyfer cerbydau di-fwg a mannau di-fwg ychwanegol. Roedd y rhain wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 2007. Mae Deddf 2017 yn ymestyn y ddarpariaeth ddi-fwg yng Nghymru i gynnwys mangreoedd nad ydynt yn gaeedig neu sylweddol gaeedig penodol, sef tir ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus, tir ysgolion a lleoliadau gofal awyr agored ar gyfer plant.

2. Mae Deddf 2017 yn cynnwys pwerau i bennu mewn rheoliadau, i ddiben darpariaethau di-fwg yng Nghymru:
    - ystyr 'caeedig', 'sylweddol gaeedig' a 'nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig';
    - unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol;
    - unrhyw esemptiadau i fangreoedd di-fwg;
    - y darpariaethau ar fannau dynodedig ar dir ysbytai ac ysgolion perthnasol nad ydynt yn ddi-fwg;
    - dyletswydd i atal ysmygu ar dir di-fwg ysbytai, ysgolion, meysydd chwarae cyhoeddus, mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg;
    - y gofynion ar gyfer cerbydau di-fwg;
    - y gofynion ar gyfer arwyddion mewn mangreoedd a cherbydau di-fwg;
    - dynodi prif swyddog heddlu ar gyfer ardal heddlu fel swyddog awdurdodedig o ran cerbydau preifat; a,
    - ffurf a chynnwys ffurflen hysbysiad cosb a swm y gosb.

3. Yn unol â'r Datganiad ar Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i Ddeddf 2017[6], nid oes bwriad ar hyn o bryd i osod dyletswydd ar reolwyr tir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus i atal ysmygu yno oherwydd eu natur eang a gwasgaredig. Bydd cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad ar ysmygu yn y mangreoedd hynny'n cael ei fonitro, gydag adolygiad bedair blynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym i asesu eu heffeithiolrwydd.

4. Mae'r pŵer i wneud mangreoedd ychwanegol yn ddi-fwg yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd i wneud rheoliadau ar fannau ychwanegol nad ydynt yn gaeedig yn y dyfodol os yw Gweinidogion Cymru'n fodlon bod gwneud hynny'n debygol o

[5] Deddf Iechyd 2006 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/28/part/1/chapter/1
[6] Datganiad ar Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Tachwedd 2016. Llywodraeth Cymru. http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16155

gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Er nad oes dim cynigion ar gyfer mangreoedd di-fwg ychwanegol yng Nghymru yn y Rheoliadau 2018 hyn, rydym yn croesawu eich sylwadau ar y mathau o fangreoedd y gellid eu hystyried mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol ar symud tuag at yr uchelgais o Gymru ddi-fwg (gweler Cwestiwn 24).

## Pennod 3: Beth yw'r prif newidiadau?

1. Mae'r prif newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar fangreoedd di-fwg fel a ganlyn. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r gwaharddiad ar ysmygu a sefydlwyd gan Reoliadau 2007 a'r elfennau newydd sydd eu hangen i weithredu'r darpariaethau ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg yn Neddf 2017. Ar ôl eu cwblhau, bydd Rheoliadau 2018 yn cael eu hategu gan ganllaw i helpu rheolwyr i weithredu mangreoedd a cherbydau di-fwg; a gorfodi'r gofynion gan swyddogion awdurdodedig.

### Diffiniad o sylweddol gaeedig ac nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig

2. Byddai Rheoliadau drafft 2018 yn diwygio ystyr 'sylweddol gaeedig' a sefydlwyd gan Reoliadau 2007. Bwriad y gwelliant yw rhoi sylw i'r dryswch presennol wrth farnu a ddylai strwythurau nad ydynt yn rhan o'r fangre ond sy'n gweithredu fel waliau, ac sydd felly'n rhan o berimedr y fangre, gael eu hystyried wrth asesu a yw'r fangre yn 'gaeedig' neu'n 'sylweddol gaeedig'. Mae Rheoliad 3(2) yn datgan yn glir y dylai strwythurau eraill sy'n rhan o berimedr y fangre gael eu cynnwys wrth ystyried y mater.

3. Mae Rheoliad 3(5) yn datgan yn glir beth yw ystyr 'nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig' i ddibenion y gofynion di-fwg. Yn syml, nid yw mangre yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig os nad yw'n dod o fewn ystyron 'caeedig' yn Rheoliad 3(1) na 'sylweddol gaeedig' yn Rheoliad 3(2).

### Esemptiadau

### Anheddau

4. Mae Rheoliadau 2007 yn caniatáu bod anheddau sy'n weithleoedd yn ddi-fwg yn y rhannau hynny'n unig sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl i waith ac y dylai'r rhannau hynny fod yn ddi-fwg gydol yr amser yn unol â Deddf 2006. Mae Deddf 2017 yn caniatáu bod anheddau sy'n weithleoedd yn ddi-fwg yn y rhannau hynny'n unig a ddefnyddir fel gweithle ac am yr amser maent yn cael eu defnyddio i'r diben hwnnw'n unig. Mae Rheoliadau 2018 yn mynd ymlaen i esemptio anheddau sy'n weithleoedd pan fydd yr holl bobl sy'n gweithio yno'n aelodau o'r aelwyd ond dim ond pan nad yw'r cyhoedd yn debygol o fynd i'r annedd i gael nwyddau a gwasanaethau yno (Rheoliad 4(2)-(5)). Er enghraifft, byddai'n rhaid i gartref gwarchodwr plant fod yn ddi-fwg yn y rhannau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau gwarchod plant am y cyfnod pan fydd plant yn bresennol; byddai'n rhaid i'r rhannau o'r cartref sy'n cael eu defnyddio i ddarparu llety dros nos fod yn ddi-fwg am y cyfnod pan fydd gwesteion yn bresennol; ni fyddai'n rhaid i gartref a ddefnyddir gan aelodau'r aelwyd ar gyfer gwaith heb ddim trydydd parti yn bresennol fod yn ddi-fwg.

5. Mae gweithgareddau gwaith sy'n cael eu gwneud mewn anheddau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth i bobl sy'n byw yno (fel gofal iechyd / personol, cynorthwyo â gwaith domestig neu gynnal a chadw) wedi'u heithrio wrth asesu a yw annedd yn weithle yn ôl Rheoliadau 4(6) a 4(7). Mae'r gweithgareddau hyn yr un fath â'r rhai sydd wedi'u hesemptio gan Reoliadau 2007.

6. Ym mhob achos, ni fyddai ysmygu'n cael ei gyfyngu yn y rhannau hynny o'r annedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith ac nid oes cyfyngiadau ar ysmygu y tu allan i oriau gweithio.

**Cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion**

7. Roedd Rheoliadau 2007 yn cynnwys esemptiad ar gyfer cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion a oedd yn caniatáu i reolwyr y mangreoedd ddynodi ystafell ar gyfer ysmygu gan rai dros 18 oed. Mae'r esemptiad hwn wedi'i gadw yn Rheoliadau 2018 ond gyda'r amod ychwanegol bod yr ystafell ddynodedig at ddefnydd preswylwyr y cartref gofal i oedolion neu'r hosbis i oedolion yn unig (gweler Rheoliad 6(2)(a)).

8. Mae ystyr 'cartref gofal i oedolion' i ddibenion Deddf 2017, ac felly i'r rheoliadau hyn, wedi'i alinio i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[7] sy'n nodi bod "gwasanaeth cartref gofal" yn golygu darparu llety, ynghyd â nyrsio neu ofal mewn lle yng Nghymru, i bobl am fod angen gofal arnynt neu am eu bod yn agored i niwed. Nid yw hyn yn cynnwys llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir mewn: ysbyty; ysgol; canolfan breswyl i deuluoedd; man sy'n darparu gwasanaeth llety diogel; neu leoliad sy'n darparu llety i oedolion sydd wedi'i drefnu fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion.

9. Ystyr 'hosbis i oedolion' i ddiben Deddf 2017[8], ac felly i'r rheoliadau hyn, yw mangre sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol i ddarparu gofal lliniarol i bobl 18 oed neu hŷn, sy'n dioddef o glefyd cynyddol yn ei gamau olaf, gan neu ar ran sefydliad sydd â'r brif swyddogaeth o ddarparu gofal o'r fath.

**Unedau iechyd meddwl**

10. Byddai Rheoliad 8 yn disodli'r esemptiad ar gyfer unedau iechyd meddwl yn Rheoliadau 2007 gydag esemptiad cyfnod penodol a fyddai'n dod i ben 18 mis ar ôl i Reoliadau 2018 ddod i rym, pe byddai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi newid o'r fath. Byddai hyn yn gosod unedau iechyd meddwl ar yr un

---

[7] Paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/schedule/1

[8] Adran 28(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/section/28

telerau â gofynion di-fwg ysbytai'n gyffredinol ac yn adlewyrchu eu rôl fel esiampl o sefydliad iechyd.

11. Byddai esemptiad cyfnod penodol yn galluogi rheolwyr unedau iechyd meddwl i weithio i gael gwared ar y cyfleuster ysmygu dan do a chaniatáu iddynt i ddynodi mamau ysmygu awyr agored i gleifion a phreswylwyr ar dir y sefydliad, os oes angen. Byddai'r esemptiad cyfnod penodol hefyd yn galluogi cleifion a phreswylwyr i addasu i newidiadau polisi ac i chwilio am gymorth i roi'r gorau i ysmygu os ydynt yn dymuno hynny neu chwilio am ddulliau amgen o gael nicotin fel NRT neu e-sigarennau i'r rhai nad ydynt yn gallu rhoi'r gorau i ysmygu. Yn ystod cyfnod yr esemptiad byddai'r ystafell ddynodedig at ddefnydd cleifion yr uned iechyd meddwl yn unig.

12. Er bod esemptiad yn weithredol ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2007, nid yw pob uned iechyd meddwl yng Nghymru wedi dynodi ystafelloedd lle mae cleifion yn cael ysmygu. Er mwyn canfod i ba raddau maent wedi cael eu dynodi cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru ymarferiad casglu gwybodaeth gan sefydliadau preifat a'r GIG sy'n darparu llety ac sy'n trin cleifion iechyd meddwl. Hefyd, cafodd profiadau personol a barn defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl ar ysmygu mewn unedau iechyd meddwl eu casglu. Yn ôl yr ymatebion a gafwyd mae'n amlwg bod gan y rhan fwyaf o unedau iechyd meddwl bolisïau ysmygu ar waith eisoes a bod y rhan fwyaf o blaid gwaharddiad llwyr ar ysmygu dan do.

13. Diffinnir uned iechyd meddwl fel mangre gyfan neu ran o fangre sydd â phrif ddiben o dderbyn a thrin pobl ag anhwylder meddyliol, ond nid yw'n cynnwys cartrefi gofal i oedolion fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 8 hyd yn oed pan fydd y cartref gofal hwnnw'n darparu triniaeth i bobl ag anhwylder meddyliol.

**Gwestai, tai llety, tafarnau hostelau a chlybiau aelodau**

14. Ar hyn o bryd mae Rheoliadau 2007 yn caniatáu rheolwyr gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau ("gwestai, etc.") i ddynodi ystafelloedd gwely lle mae ysmygu'n cael ei ganiatáu; fodd bynnag, mae'r gwaharddiad ar ysmygu wedi ymwreiddio i'r fath raddau yng Nghymru fel nad oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r esemptiad presennol. Mae Rheoliad 9 felly yn caniatáu esemptiad cyfnod penodol i westai, etc. a fyddai'n dod i ben 12 mis ar ôl i Reoliadau 2018 ddod i rym, pe byddai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o blaid newid o'r fath. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i westai, etc. fod yn ddi-fwg ym mhob rhan o'u mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig pan fyddai cyfnod yr esemptiad yn dod i ben. Bwriedir i'r esemptiad cyfnod penodol roi cyfnod trosiannol a fyddai'n galluogi gwestai etc i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'w mangreoedd i gydymffurfio â'r gofyniad di-fwg.

15. Byddai cael gwared ar ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu yn ymestyn amddiffyniad gweithleoedd rhag niwed mwg ail-law i iechyd i bob gweithiwr mewn mangreoedd o’r fath a byddai’n cefnogi nod Llywodraeth Cymru yn y pen draw o gymdeithas ddi-fwg. Byddai hefyd yn alinio gwestai etc â darpariaeth mathau eraill o lety dibreswyl fel ysbytai.

**Mannau ysmygu dynodedig ar dir ysbytai a thir ysgolion â llety preswyl i ddisgyblion**

16. Mae Rheoliadau 2018 yn cynnwys yr amodau y byddai’n rhaid i dir ysgolion â llety preswyl ar gyfer disgyblion (Rheoliad 10) a thir ysbytai (Rheoliad 11) gydymffurfio â hwy cyn y gellid eu dynodi fel rhai nad ydynt yn ddi-fwg (h.y. mannau wedi’u dynodi ar gyfer ysmygu). Fodd bynnag, fel yn achos ystafelloedd ysmygu dynodedig mewn mangreoedd â chaniatâd i’w cael, ni fyddai dim gofyniad ar reolwr tir ysgol neu dir ysbyty di-fwg perthnasol i ddynodi man ar gyfer ysmygu. – dewisol ydyw.

17. Yr amod cyntaf yw bod mannau ysmygu dynodedig i gael eu defnyddio gan bobl dros 18 oed yn unig a chan bobl a nodwyd gan reolwr y fangre (er enghraifft, gall y rheolwr ddatgan bod ymwelwyr a chleifion yn cael defnyddio’r fan ond nid staff a disgyblion). Mae’r ail amod yn cyfyngu ar uchafswm maint y man ysmygu dynodedig i 8.25m$^2$ (tua maint lloches bws), rhaid i unrhyw fan ysmygu dynodedig fod wedi’i leoli o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw fangre di-fwg arall (heblaw am y tir di-fwg lle mae’r fan wedi’i lleoli) a bod wedi’i farcio’n eglur fel man lle mae pobl dros 18 oed a rhai wedi’u nodi gan y rheolwr yn cael ysmygu. Yn achos tir ysgol perthnasol, rhaid i’r mannau dynodedig fod wedi’u lleoli ar dir sy’n cyd-ffinio â’r ysgol. Dylai’r amodau hyn olygu nad oes mwg yn ymledu i fannau di-fwg eraill, i atal ardaloedd mawr rhag cael ei defnyddio ar gyfer ysmygu ac i atal defnydd amhriodol. Bydd man dynodedig wedi’i farcio’n eglur i sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod lle mae ysmygu’n cael ei ganiatáu ar y tir, ac felly lleihau’r perygl y gallai rhai nad ydynt yn ysmygu fynd i’r ardal honno ar ddamwain.

18. Byddai’n rhaid i reolwyr tir di-fwg perthnasol gadw cofnod o’r holl fannau ysmygu dynodedig. Bydd hyn yn helpu i ddatrys unrhyw anghydfodau ynglŷn â lle mae ysmygu’n cael ei ganiatáu ar y tir. Gall rheolwyr hefyd amrywio’r man ysmygu dynodedig (er enghraifft, trwy leihau ei faint) neu ddiddymu’r man ysmygu dynodedig ar unrhyw amser.

**Arwyddion Dim ysmygu**

19. Byddai Rheoliadau 2018 yn llacio'r darpariaethau presennol ar arwyddion dim ysmygu mewn mangreoedd di-fwg caeedig a sylweddol gaeedig (Rheoliad 12) a cherbydau di-fwg (Rheoliad 17). Mae lefelau cydymffurfio â'r gyfraith ddi-fwg gyfredol yn uchel a byddai'r newid hwn yn caniatáu rheolwyr mangreoedd i gydymffurfio'n hyblyg â'u harwyddion eu hunain cyn belled â'u bod yn cydymffurfio ag egwyddorion dylunio sylfaenol. Yr egwyddorion arfaethedig yw bod yr arwydd yn cynnwys darlun graffig eglur o sigarét wedi'i thanio o fewn cylch gyda llinell trwyddo, heb fanylebau o ran maint, lliw na lleoliad yr arwydd. Ni fyddai dim rhybudd ysgrifenedig penodol i gyd-fynd â'r graffeg pan fydd yn cael eu defnyddio mewn mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig. Ni fyddai dim gofyniad i arddangos arwyddion dim ysmygu o gwbl mewn anheddau.

20. Yn achos tir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus, byddai Rheoliadau 2018 yn mynnu bod y mangreoedd hyn, yn ychwanegol at y darlun graffig, yn cynnwys rhybudd ysgrifenedig sy'n benodol ar gyfer y math o fangre a bod o leiaf un math o arwydd yn cael ei arddangos wrth neu'n agos at brif fynedfa (neu brif fynedfeydd os mai dyna'r achos) y fangre. Yn achos meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg heb derfyn pendant, cynigir fod yr arwydd yn cael ei osod mewn man amlwg ger y maes chwarae. Byddai'r gofynion ychwanegol ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn cael eu hadolygu bedair blynedd ar ôl iddynt ddod i rym gyda golwg ar eu llacio, os bydd lefelau cydymffurfio â'r gwaharddiad ar ysmygu yn y mannau hyn yn foddhaol.

21. Ni fyddai'r gofynion ar arwyddion dim ysmygu yn gymwys i leoliadau gofal awyr agored ar gyfer gofal plant. Rydym ar ddeall bod llawer o leoliadau o'r fath mewn mangreoedd sy'n cael eu defnyddio'n ysbeidiol yn unig neu sy'n cael eu rhannu â mangreoedd eraill ac y byddai'n afresymol i ddisgwyl i bob mangre godi neu osod arwyddion dim ysmygu bob tro maent yn mynd â'r plant i'r man awyr agored ac yna eu tynnu i lawr wrth iddynt adael. Byddai canllaw, fodd bynnag, yn cynnwys y camau rhesymol y dylent eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran eu dyletswydd i atal ysmygu mewn man di-fwg; byddai hyn yn cynnwys canllaw ar arwyddion y gellid eu defnyddio lle mae'r amgylchiadau'n gwneud hynny'n briodol (er enghraifft, mewn lleoliad gofal plant lle nad yw'r man arwyr agored yn cael ei rannu â mangre arall).

**Cerbydau di-fwg**

22. Mae Rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol bod cerbydau caeedig sy'n cael eu defnyddio i ddibenion gwaith gan fwy nag un unigolyn neu i gludo'r cyhoedd yn ddi-fwg gydol yr amser. Nid yw Rheoliadau 2018 yn newid hyn gyda'r darpariaethau a geir yn Rheoliad 14(2).

23. Ychwanegiad at Reoliadau 2007 yw Rheoliad 14(3)(a) sy'n gwneud cerbydau caeedig yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio yn ystod gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cludo unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall sydd hefyd yn y cerbyd. Nid yw cerbydau o'r fath wedi eu cynnwys gan Reoliad 14(2) am nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwaith neu gludiant cyhoeddus. Er enghraifft, car sy'n cael ei ddefnyddio wrth warchod plant i gludo plant yn ôl a blaen o'r ysgol ond sydd fel arall yn cael ei ddefnyddio i ddibenion preifat, cymdeithasol neu ddomestig; car sy'n cael ei ddefnyddio'n rhan amser yn unig i ddarparu gwasanaethau hurio preifat. Nid yw'r Rheoliadau 2018 yn ei gwneud yn ofynnol bod y cerbydau hyn yn ddi-fwg gydol yr amser ond pan fydd unigolyn yn y cerbyd yn cael nwyddau neu wasanaethau gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r cerbyd. Ni fyddai hyn yn golygu bod yn rhaid i gerbyd preifat sy'n cael ei ddefnyddio gan y gyrrwr i gludo cydweithiwr i gyfarfod fod yn ddi-fwg, oni bai bod y cydweithiwr hwnnw o dan 18 oed. Mae Rheoliad 14(3)(b) yn cadw darpariaethau Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 ar ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo pobl o dan 18 oed.

## Pennod 4: Beth fydd yn aros yr un fath?

1. Er y byddai Rheoliadau 2018 yn gwneud nifer o newidiadau i ddarpariaethau Rheoliadau 2007, mae llawer o ddarpariaethau'r un fath. Er mwyn eglurder, nodir y rhain isod.

### Llety gwyliau neu lety dros dro

2. Mae Rheoliad 5 yn esemptio llety hunan gynhaliol preswyl a ddefnyddir i ddibenion gwyliau neu ddibenion dros dro o’r gofynion di-fwg. Nid oes newid o Reoliadau 2007 yn hyn o beth sydd hefyd yn esemptio mangreoedd o’r fath ond gan eu cynnwys o fewn yr ystyr o ‘anheddiad preifat’.

### Esemptiadau

3. Nid oes dim mathau ychwanegol o fangreoedd wedi cael eu hesemptio yn Rheoliadau 2018 ac mae’r newidiadau i’r esemptiadau presennol wedi’u rhoi uchod. Roedd Rheoliad 2007 yn gosod gofynion ar gyfer unrhyw ystafell ddynodedig ar awyru, agoriadau a chael ei marcio’n eglur fel ystafell ar gyfer ysmygu; nid yw’r gofynion hyn wedi eu newid yn Rheoliadau 2018. Mae’r caniatâd i ddynodi ystafell ar gyfer ymchwil a phrofion sy’n ymwneud ag ysmygu mewn cyfleusterau ymchwil a phrofi wedi ei gadw yn Rheoliad 7.

### Mangreoedd di-fwg ychwanegol

4. Nid oes dim mangreoedd di-fwg ychwanegol yn cael eu cynnig yn y Rheoliadau 2018 hyn; fodd bynnag, croesewir awgrymiadau ar ddyfodol gofynion di-fwg yng Nghymru mewn ymatebion.

### Cerbydau gwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus di-fwg

5. Mae Rheoliad 14(2) yn cadw disgrifiad 2007 o gerbydau a ddefnyddir ar gyfer gwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus y byddai’n rhaid eu trin fel rhai di-fwg gydol yr amser, sef cerbydau sydd:

    - ar gyfer cludo’r cyhoedd neu garfan o’r cyhoedd (boed hynny am dâl neu hurio neu beidio); neu
